



**BWRDD PARTNERIAETH
RHANBARTHOL
CAERDYDD A'R FRO
CARDIFF & VALE
REGIONAL PARTNERSHIP
BOARD**

Strategaeth Dementia Caerdydd a Bro Morgannwg 2018-2028

CYDNABYDDIAETH

Diolch i bawb a gymerodd ran yn y grwpiau ffocws, y cyfweiliadau, y digwyddiad datblygu strategaeth dementia a'r grŵp llywio, gan gynnwys pobl â dementia a'u gofalwyr, darparwyr gwasanaeth a sawl sefydliad trydydd sector. Diolch i gyfarwyddwr Clwb Camera Caerdydd a Diverse Cymru am rai o'r lluniau a geir yn y Strategaeth hon.

CYNNWYS

Cydnabyddiaeth	2
Cynnwys	3
Rhagair	5
Crynodeb Gweithredol.....	6
Cyflwyniad.....	7
Cyd-destun Polisi.....	9
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	9
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	10
Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru ..	10
Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia Llywodraeth Cymru 2018-2022.....	11
Adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn Dementia: Yn Fwy na Cholli Cof	12
Strategaeth Lluio ein Lles yn y Dyfodol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.....	13
Asesiad Anghenion Iechyd Dementia Caerdydd a'r Fro	14
Datblygu Strategaeth.....	14
Datganiad Gweledigaeth	15
Amcan Strategol 1 – Mae dementia yn fater i bawb	16
Amcan Strategol 2 – Bydd y risg o ddatblygu dementia'n cael ei leihau a rhoddir diagnosis mewn da bryd	18
Amcan Strategol 3 – Bydd cyfle teg i fanteisio ar wasanaethau.....	20
Amcan Strategol 4 – Caiff gwasanaethau eu cydlynu'n llawn	21
Amcan Strategol 5 – Bydd gwasanaethau'n cael eu darparu gyda charedigwydd a thrugaredd	24

Amcan Strategol 6 – Bydd cymorth yn canolbwyntio ar ofal sylfaenol	25
Amcan Strategol 7 – Bydd gofalwyr yn derbyn gofal	26
Amcan Strategol 8 – Bydd argyfyngau’n cael eu hosgoi	27
Cyflawni	29
Cynllun Dementia 2014-2017	29
Monitro Cynnydd ar Strategaeth a Chynllun Gweithredu Dementia 2018-2028.....	30
Atodiad A: Monitro a Gwerthuso	31
Atodiad B: Cofnodion Gweledol o’r Digwyddiad Strategaeth Dementia	34

RHAGAIR

Croeso i Strategaeth Dementia 2018-2028 Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae tua 5,000 o bobl yn byw â dementia yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Yn ogystal â newid bywyd y person sydd â dementia, rydym yn gwybod bod dementia'n cael effaith sylweddol ar fywydau perthnasau, ffrindiau a chymdogion sydd yn aml yn cyflawni rolau gofalu.

Rydym am i bobl â dementia a'u gofalwyr fyw'n dda a chael cymorth i wneud hynny trwy gydol datblygiad y salwch. Byddan nhw'n gwybod am y cymorth a'r gwasanaethau priodol ar yr amser priodol ac yn gallu gwneud hyn. Ein nod yw i ddementia fod yn fater i bawb. Mae hynny'n golygu bod angen i ni sicrhau bod pawb yn gwybod am ddementia ac y gall pobl fyw'n dda â dementia.

Mae'r strategaeth hon wedi'i chyd-gynhyrchu gan amrywiaeth o randdeiliaid gan gynnwys pobl â dementia, gofalwyr, amrywiaeth o sefydliadau trydydd sector, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Trwy gydweithio i lunio'r Strategaeth hon, gobeithiwn y bydd yr holl randdeiliaid yn cymryd rhan lawn yn y gwaith o wireddu'r weledigaeth uchelgeisiol dros y deng mlynedd nesaf.

Mae'r strategaeth hon yn nodi sut y bydd sefydliadau a phobl ledled Caerdydd a Bro Morgannwg yn cydweithio i wella bywydau pobl â dementia a'u gofalwyr a gobeithiwn y byddwch yn ein cefnogi ac yn ymuno â ni yn yr her hon.



Susan Elsmore

Y Cyng. Susan Elsmore

Cadeirydd, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

CRYNODEB GWEITHREDOL

Lluniwyd gweledigaeth ac amcanion strategol y strategaeth hon trwy'r Aseiad o Anghenion Dementia, trwy gonsensws yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia ym mis Mawrth 2017, a thrwy ymgynghori.



Dyma'r weledigaeth:

Erbyn 2028, bydd poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg yn deall dementia a byddant yn lleihau eu risg o ddatblygu dementia.

Bydd gan bobl â dementia gyfle cyfartal ac amserol i gael diagnosis; byddant yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn lleol â charedigrwydd. Bydd gofalwyr yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi a'u grymuso.

Yr wyth amcan strategol:

1. Mae dementia yn fater i bawb
2. Bydd y risg o ddatblygu dementia'n cael ei leihau a rhoddir diagnosis mewn da bryd
3. Bydd cyfle cyfartal i ddefnyddio gwasanaethau
4. Bydd gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n llawn
5. Bydd gwasanaethau'n cael eu darparu â charedigrwydd a thrugaredd
6. Bydd cymorth yn canolbwyntio ar Ofal Sylfaenol
7. Gofelir dros ofalwyr
8. Bydd argyfyngau yn cael eu hosgoi

Bydd yr holl gamau gweithredu yn y cynllun gweithredu ar gyfer dementia yn dod o dan yr wyth amcan strategol allweddol. Mae meysydd gweithredu'n ymgorffori dyheadau lefel uchel, a bydd yn cymryd amser i'w cyflawni'n llawn. Trwy weithio mewn partneriaeth, byddwn yn ceisio cyflawni'r camau gweithredu erbyn eu dyddiadau targed.

CYFLWYNIAD

Mae pobl hŷn yn boblogaeth bwysig a chynyddol yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Er mwyn aros yn iach, mae angen i ni weithio gyda'n gilydd fel cymuned i ddarparu cyfleoedd i gynnal iechyd da ac yna gofal a chymorth i bobl pan fydd eu hiechyd yn dirywio.



Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg rydym am wneud dau beth: helpu pobl i fyw bywydau iachach fel bod nifer y bobl newydd â dementia yn gostwng dros amser a gwneud newidiadau cadarnhaol i bobl â dementia, eu gofalwyr, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Mae'r gair 'dementia' yn disgrifio cyfres o symptomau sy'n gallu cynnwys colli'r cof ac anawsterau o ran meddwl, datrys problemau neu iaith. Fe'i hachosir pan fydd yr ymennydd yn cael ei ddifrodi gan glefydau fel clefyd Alzheimer neu gyfres o strociau. Mae dementia yn glefyd cynyddol, sy'n golygu y bydd symptomau'n gwaethygu'n raddol. Mae dementia yn brin ymhlith pobl o dan 65 oed, ond mae'n dod yn fwyfwy cyffredin wrth i bobl heneiddio.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu mwy o ffocws ar ddementia yn genedlaethol ac yn lleol oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio, sydd wedi arwain at niferoedd cynyddol o bobl â dementia. Mae tua 5,000 o bobl yn byw â dementia yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Amcangyfrifir bod tua dau draean o bobl sy'n byw â dementia yn byw

yn y gymuned, gyda thraean yn byw mewn cartrefi gofal nyrsio neu breswyl. Mae cyfran fawr o bobl felly yn byw heb ddiagnosis ffurfiol, sy'n amharu ar eu gallu i fanteisio ar gymorth a gwasanaethau perthnasol.

Datblygwyd y strategaeth hon fel partneriaeth rhwng Bwrdd Iechyd y Brifysgol a Chyngor Caerdydd a Chyngor Bro Morgannwg ynghyd â phartneriaid lleol o'r trydydd sector, yn ogystal â thrwy siarad â phobl â dementia, eu gofalwyr, eu staff a darparwyr gwasanaethau am eu profiadau.

Mae gan y Strategaeth hon linell amser o 10 mlynedd i alluogi cynllunio tymor hir. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gynllunio darpariaeth tai ac ysbytai a fydd yn cymryd amser sylweddol i'w datblygu a'i chyflwyno.

Bydd Strategaeth Dementia Caerdydd a Bro Morgannwg yn:

- Nodi'r weledigaeth ar gyfer yr hyn rydym am ei gyflawni erbyn 2028
- Gwella gwaith partneriaeth
- Nodi blaenoriaethau allweddol ar gyfer yr hyn mae angen ei wella
- Cynnwys pobl leol mewn trafodaeth am yr hyn sy'n gweithio orau iddynt
- Sicrhau ein bod yn darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn

CYD-DESTUN POLISI

Mae nifer o bolisiau cenedlaethol sy'n berthnasol i atal dementia a gwasanaethau i bobl â dementia a'u gofalwyr. Byddwn yn sicrhau ystyriaeth briodol i'r rhain yn y Strategaeth Dementia.

DEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014

Daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 i rym ym mis Ebrill 2016 i wella lles pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr sydd angen cymorth.

Mae hefyd yn hyrwyddo'r amrywiaeth o help sydd ar gael yn y gymuned i leihau'r angen am gymorth ffurfiol, cynlluniedig ac mae'n seiliedig ar y ddealltwriaeth ganlynol:

- Bydd gwasanaethau ar gael i ddarparu'r cymorth priodol ar yr amser priodol
- Bydd mwy o wybodaeth a chyngor ar gael
- Bydd y broses asesu'n symlach ac yn gymesur
- Bydd gan ofalwyr hawl gyfartal i gael eu hasesu ar gyfer cymorth
- Bydd pwerau cryfach i gadw pobl yn ddiogel rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso

Mae Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad â'u partneriaid perthnasol ac eraill, mewn perthynas ag oedolion ag anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr. Mae'r Ddeddf hefyd yn annog trefniadau partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol.


Rhoddodd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ddyletswydd ar awdurdodau lleol a Byrddau Iechyd Lleol i baratoi a chyhoeddi asesiad o anghenion gofal a chymorth y boblogaeth, gan gynnwys gofalwyr sydd angen cymorth. Cafodd yr asesiad o anghenion y boblogaeth ei gynnal rhwng mis Chwefror 2016 a mis Ionawr 2017. Defnyddiwyd Asesiad Anghenion Iechyd Dementia Caerdydd a'r Fro (Chwefror 2017) sy'n disgrifio anghenion iechyd pobl

â dementia nad ydynt yn cael eu diwallu yn ogystal â gofalwyr i lywio'r asesiad o anghenion y boblogaeth.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Daeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i rym ym mis Ebrill 2016. Nod y Ddeddf hon yw gwella lles cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae'n rhoi diben cyffredin sy'n gyfreithiol rwymol – y saith nod lles – ar gyfer y llywodraeth genedlaethol, llywodraeth leol, byrddau iechyd a chyrff cyhoeddus penodol eraill. Mae'n manylu ar y ffyrdd y mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus hyn weithio, a chydweithio, i wella lles Cymru.

Bydd yn gwneud i'r cyrff cyhoeddus feddwl yn fwy am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a chyda'i gilydd, ceisio datrys problemau a defnyddio dull mwy cydlynol. Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu mewn ffordd gynaliadwy.



ADOLYGIAD SENEDDOL O IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL YNG NGHYMRU

Mae sefydlu Adolygiad Seneddol o ddyfodol hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn ymrwymiad allweddol yn Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru a lansiwyd ym mis Medi 2016. Cafodd y panel annibynnol o arbenigwyr, a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2016, y dasg o lunio adroddiad a oedd yn canolbwyntio ar gynaliadwyedd iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Cafodd yr [adroddiad terfynol](#) ei lansio ym mis Ionawr 2018, gyda 10 argymhelliad allweddol:

1. Un system ddi-dor i Gymru
2. Y Nod Pedwarplyg i bawb

3. Modelau newydd beiddgar o ofal di-dor – egwyddorion cenedlaethol, darpariaeth leol
4. Rhoi'r bobl mewn rheolaeth
5. Lle gwych i weithio
6. System Iechyd a Gofal sydd bob amser yn dysgu
7. Harneisio arloesedd, a chyflymu datblygiadau technoleg a seilwaith
8. Alinio dyluniad y system er mwyn sicrhau canlyniadau
9. Y gallu i drawsnewid, arweinyddiaeth ddeinamig, cydweithredu digynsail
10. Atebolrwydd, cynnydd a chyflymder

CYNLLUN GWEITHREDU CYMRU AR GYFER DEMENTIA LLYWODRAETH CYMRU 2018-2022

Cafodd [Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia 2018-2022](#) ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2018. Themâu allweddol y cynllun gweithredu yw:

- Lleihau risg ac oedi'r clefyd rhag datblygu
- Codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth
- Cydnabod ac adnabod
- Asesu a diagnosis
- Byw cystal â phosibl, cyhyd â phosibl gyda dementia
- Yr angen am fwy o gymorth
- Cefnogi'r broses weithredu

Ochr yn ochr â lansio'r cynllun, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddarparu £10 miliwn yn rheolaidd yn genedlaethol o 2018/19, ar gyfer y mentrau canlynol:

- Datblygu 'timau o amgylch yr unigolyn' i ddarparu cymorth ychwanegol i bobl â dementia a'u teuluoedd/gofalwyr.

- Adolygu a safoni rôl gweithwyr cymorth dementia – cynyddu eu niferoedd yn ôl y gofyn.
- Datblygu swydd Ymarferydd Ymgynghorol Iechyd Perthynol Dementia Cymru Gyfan a fydd yn rhoi cyngor a chymorth i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol i alluogi darparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sbarduno gwelliannau i wasanaethau.
- Cynyddu cyflymder a phrydlondeb diagnosis dementia.
- Cryfhau cydweithio rhwng gofal cymdeithasol a thai er mwyn galluogi pobl i aros yn eu cartrefi yn hirach.
- Cyflwyno'r 'Fframwaith Gwaith Da – Dysgu a Datblygu Dementia' i alluogi pobl sy'n gweithio gyda'r rhai sy'n byw â dementia i ddysgu'r sgiliau i adnabod symptomau'n gynharach a'u helpu i deimlo'n hyderus ac yn gymwys i ofalu am y rhai sy'n byw â dementia a'u cefnogi.
- Cyflwyno egwyddorion 'Ymgyrch John' ar draws pob bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth.

Lle ceir dolenni i Gynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru, dangosir hyn mewn [testun porffor](#).

ADRODDIAD Y COMISIYNYDD POBL HÛN DEMENTIA: YN FWY NA CHOLLI COF

Mae Adroddiad y Comisiynydd Pobl HÛn yn rhoi manylion y cyfweiliadau helaeth a gynhaliwyd â phobl ledled Cymru. Roedd yr ymchwil hon yn rhoi llais i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr, i sbarduno'r newid i wella cymorth a gwasanaethau i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr. Rhai o'r casgliadau allweddol:

- Mae diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth eang o ddementia ymhlith gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd yn gyffredinol
- Nid oes gan wasanaethau dementia'r hyblygrwydd i ddiwallu'n effeithiol anghenion pobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr
- Mae diffyg cydweithredu rhwng gwasanaethau'n creu anawsterau a rhwystrau diangen i bobl sy'n byw â dementia a'u gofalwyr

- Mae'r cyfuniad o'r ffactorau a nodir uchod yn arwain at amrywiad ac anghysondeb sylweddol ym mhrofiadau pobl sy'n byw â dementia a'r rhai sy'n gofalu amdanynt

STRATEGAETH LLUNIO EIN LLES YN Y DYFODOL BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CAERDYDD A'R FRO

Cafodd strategaeth 10 mlynedd '[Llunio Ein Lles yn y Dyfodol](#)' ei datblygu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro mewn partneriaeth â sectorau eraill.

Mae egwyddorion allweddol y strategaeth fel a ganlyn:

- Grymuso'r person:
- Gartref gyntaf
- Canlyniadau sy'n bwysig i bobl:
- Osgoi niwed, gwastraff ac amrywio

Mae saith safon wasanaeth sy'n seiliedig ar bwnc, ac mae dementia yn un ohonynt. O fewn hon, mae chwe chanlyniad dementia allweddol:

1. Mae pobl yn ymwybodol o'r risg o ddementia ac yn cael cymorth i leihau eu risg o ddementia trwy ddewisiadau ffordd o fyw sy'n iach.
2. Mae dementia'n cael ei ganfod yn gyflym pan fydd yn datblygu, gyda phobl yn cael triniaeth a gofal amserol ac effeithiol fel bod ganddynt y cyfle gorau posibl i gynnal gallu gwybyddol.
3. Mae pobl sy'n gofalu am aelodau o'r teulu neu ffrindiau, yn ogystal â staff clinigol, yn cael cymorth i gynnal eu hiechyd a'u lles, gyda gwasanaethau lleol sy'n hawdd eu deall a'u defnyddio.
4. Mae gofal a chymorth dementia ar gael ar draws y sefydliad, gyda'r holl staff wedi'u hyfforddi i fod yn hyderus ac yn abl i nodi anghenion sy'n gysylltiedig â dementia ac ymateb yn briodol iddynt.
5. Mae pobl wrth wraidd gofal dementia gyda'u hanghenion unigol yn cael eu nodi a'u diwallu fel eu bod yn teimlo eu bod yn cael

cymorth a gwybodaeth dda, ac yn gallu rheoli effeithiau eu dementia eu hunain, neu ddementia anwylyd.

6. Mae diwedd bywyd unigolyn yn urddasol ac mae gofal yn cael ei gyfeirio at gyflawni nodau a dyheadau'r unigolyn.

ASESIAD O ANGHENION IECHYD DEMENTIA CAERDYDD A'R FRO

Er mwyn paratoi ar gyfer y strategaeth 10 mlynedd newydd, cwblhaodd a chyhoeddodd y Bartneriaeth [Asesiad o Anghenion Dementia](#) ym mis Chwefror 2017. Bu'r Asesiad o Anghenion Iechyd Dementia yn triongli data o'r ffynonellau canlynol: adolygu data cyfredol; cynnal grŵp ffocws gyda phobl â dementia; a chyfweld â 27 o ofalwyr, aelodau staff a rhanddeiliaid. Nodwyd naw thema allweddol o'r gwaith hwn:

1. Mae dementia yn fater i bawb
2. Mae atal yn hanfodol
3. Unigrwydd a theimlo'n ynysig
4. Cydlyniad gwasanaethau
5. Caredigrwydd a thosturi
6. Symud cymorth i Ofal Sylfaenol
7. Gofalu am ofalwyr
8. Beth i'w wneud mewn argyfwng
9. Anghydraddoldeb o ran mynediad i wasanaethau

Defnyddiwyd y themâu hyn fel y themâu allweddol ar gyfer Strategaeth Dementia 2018-2028 gan mai dyma'r prif faterion a nodwyd gan y rhanddeiliaid lleol, aelodau staff, defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

DATBLYGU'R STRATEGAETH

Er mwyn llunio'r strategaeth hon, cynhaliwyd digwyddiad gennym ar 14 Mawrth 2017 i gasglu barn ar beth ddylai'r weledigaeth fod ac i gasglu syniadau ar gyfer gwelliannau. Fel rhan o hyn, cynhaliwyd ymarfer gennym i helpu i flaenoriaethu camau gweithredu a awgrymwyd ar gyfer derbynoldeb a chydwedoldeb.

Mae'r strategaeth hon yn disgrifio'r weledigaeth a'r amcanion strategol ar gyfer dementia am y deng mlynedd nesaf. Dewiswyd deng mlynedd i alluogi cynllunwyr i ystyried mentrau tymor hwy fel datblygiadau tai newydd mewn perthynas â dementia.



DATGANIAD GWELEDIGAETH

Mae'r datganiad gweledigaeth hwn yn cyfuno'r sylwadau a gyflwynwyd fel rhan o'r Aseiad o Anghenion Iechyd Dementia a'r byd newydd a ddisgrifiwyd yn y sesiwn weledigaethau a gynhaliwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia ym mis Mawrth 2017 gan grŵp a oedd yn cynnwys pobl â dementia, gofalwyr, rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaethau.

Mae'n nodi tri maes y mae angen i ni weithio arnynt dros y deng mlynedd nesaf: y boblogaeth gyfan; pobl â dementia; a'u gofalwyr.


Lluniwyd y datganiad gweledigaeth hwn o waith syniadau'r pum grŵp ar y diwrnod.

Ein Gweledigaeth:

Erbyn 2028, bydd poblogaeth Caerdydd a Bro Morgannwg yn deall dementia a byddant yn lleihau eu risg o ddatblygu dementia.

Bydd gan bobl â dementia gyfle cyfartal ac amserol i gael diagnosis; byddant yn derbyn gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn lleol â charedigrwydd. Bydd gofalwyr yn teimlo eu bod wedi'u cefnogi a'u grymuso.

AMCAN



"Gallwn weld sefyllfa lle'r oedd siopau, safleoedd, adeiladau, ffyrdd, mannau parcio, cyfleusterau cymunedol a phethau eraill wedi'u paratoi'n llwyrar gyfer pobl â dementia. Nid pobl â dementia yn unig y byddai hyn yn eu helpu. ond pob un ohonom."

STRATEGOL 1 - DEMENTIA YW BUSNES PAWB

Mae nifer o'r rhanddeiliaid ar Grŵp Llywio Dementia Caerdydd a'r Fro yn credu bod dementia yn fater i bawb. Mae yna ddealltwriaeth a rennir hefyd, fel gydag unrhyw salwch, y gall y gymdeithas yr ydym yn byw ynddi wneud bywyd yn haws i bobl â dementia a'u gofalwyr.

Mae'r cynlluniau Cymunedau sy'n Deall Dementia a Chyfeillion Dementia yn cael eu hystyried fel rhan fawr o'r ateb hwn, a chydabyddir bod amgylcheddau sy'n deall dementia hefyd yn chwarae rhan.

Y pum maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i flaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 1.1 Dylai pob adeilad newydd fod yn ystyriol o ddementia. Byddai hyn yn cael ei sicrhau trwy weithio gyda chynllunwyr a dylunwyr i ddeall yr heriau i bobl â dementia a'u gofalwyr. Mae [Siarter Tai sy'n Ystyriol o Dementia](#) yn gymorth defnyddiol ar gyfer hyn. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 33.\]](#)
- 1.2 Dylai arwyddion fod yn glir, ac wedi'u safoni, fel arwyddion ffyrdd. Mae hyn yn ddelfrydol gyda symbolau yn ogystal â geiriau yn helpu os bydd pobl â dementia yn newid amgylchedd, er enghraifft mewn ward mewn ysbyty. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 33.\]](#)
- 1.3 Ystyried amrywiaeth o opsiynau llety addas ar gyfer pobl sy'n byw â dementia. Er enghraifft: roedd cynlluniau rhannu llety yn boblogaidd fel ateb posibl, ac mae gan Gaerdydd yn arbennig boblogaeth fawr o fyfyrwyr a allai elwa o hyn. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 31.\]](#)
- 1.4 Dylai'r gwaith i wneud mwy o ardaloedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg yn Gymunedau sy'n Deall Dementia barhau. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 4.\]](#)
- 1.5 Sicrhau bod hyfforddiant Cyfeillion Dementia yn orfodol i'r holl staff sy'n wynebu'r cyhoedd yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 7.\]](#)

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Mae angen cyflwyno cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio rhwng cenedlaethau. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 6.\]](#)
- Dylid cynllunio manau gwyrdd i fod yn ystyriol o ddementia. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 33.\]](#)
- Cynghori a chefnogi busnesau i fod yn ystyriol o ddementia.

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Gweithio gyda chymunedau lleol a sefydliadau'r trydydd sector i'w hannog i agor eu gwasanaethau fel y gall pobl gyda dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr gymryd rhan [Cam 5].

AMCAN STRATEGOL 2 - BYDD RISG O DDATBLYGU DEMENTIA YN CAEL EI LEIHU A RHODDIR DIAGNOSIS MEWN DA BRYD



Mae angen cryfhau a hyrwyddo negeseuon allweddol ynghylch atal dementia. Prin yw'r wybodaeth gyhoeddus am y chwe cham y gall pobl eu cymryd i leihau'r risg o ddementia, sef bod yn gorfforol actif; cynnal pwysau iach; bod yn weithgar yn gymdeithasol ac yn feddyliol; osgoi yfed gormod o alcohol; rhoi'r gorau i ysmegu; ac ymrwymo i adolygu eich iechyd.

Ystyrir mai oedran yw'r ffactor risg uchaf ar gyfer dementia, ac mae canran y bobl hŷn yn y boblogaeth yn cynyddu. Mae tystiolaeth o blaid dulliau iach o fyw ymhlith pobl ganol oed i oedi neu atal dementia rhag datblygu.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol (NICE) yn argymhell:

- Annog ymddygiadau iach
- Codi ymwybyddiaeth o'r risg o ddementia, anabledd ac eiddilwch
- Llunio gwybodaeth am leihau'r peryglon o ddementia, anabledd ac eiddilwch
- Atal y defnydd o dybaco
- Gwella'r amgylchedd i hybu gweithgarwch corfforol
- Lleihau'r risg sy'n gysylltiedig ag alcohol

Yn ogystal, mae sicrhau bod diagnosis yn cael ei roi mewn da bryd yn golygu y bydd pobl â dementia a'u gofalwyr yn cael y gofal a'r cymorth y mae eu hangen arnynt ar yr adeg iawn.

Y pum maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i'w blaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 2.1 Sicrhau y rhoddir diagnosis o ddementia mewn da bryd. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 19.](#)]
- 2.2 Dylai codi ymwybyddiaeth o negeseuon atal ddechrau gyda phlant. Dylai ymyriadau canol oes hyrwyddo'r negeseuon ynghylch lleihau risg. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 2.](#)]
- 2.3 Dylid cysylltu plant ag oedolion hŷn mewn amgylchedd strwythuredig diogel i sicrhau rhyngweithio sy'n pontio'r cenedlaethau er budd y ddau grŵp. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 6.](#)]
- 2.4 Dylai'r neges "Mae'r hyn sy'n dda i'ch calon yn dda i'ch ymennydd" fod yn ymgyrch hyrwyddo ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales actions 1 and 2](#)]

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Dylid cynllunio manau gwyrdd i fod yn ystyriol o ddementia

- Dylai'r cynllun cyfeirio meddygon teulu presennol i annog gweithgarwch corfforol gynnwys pobl â dementia

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Sicrhau bod pobl sy'n byw â dementia yn cael cyngor am y newidiadau y gallent gael cymorth i'w gwneud i wella eu hiechyd a'u lles yn gyffredinol [Cam 3].
- Sicrhau bod pob person sydd â diagnosis o ddementia yn cael pecyn gwybodaeth wedi'i deilwra mewn fformat hygyrch, gan gynnwys opsiynau digidol yn ôl yr angen, a rhoi cyfle iddo siarad â gweithiwr cymorth dementia neu weithiwr cyfatebol [Cam 26].

AMCAN STRATEGOL 3 - BYDD CYFLE TEG I FANTEISIO AR WASANAETHAU

Disgrifiodd gofalwyr sut roedd rhaid "brwydro dros wasanaethau". Mae pryder cyffredinol na fyddai pobl â dementia yn gallu manteisio ar yr holl wasanaethau yr oedd eu hangen arnynt heb i'r teulu ofyn am wasanaethau. Mae'r amcan strategol hwn yn ymwneud â sicrhau y bydd pawb yn cael gwasanaeth teg. Roedd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn dangos bod angen rhoi ystyriaeth benodol i'r grwpiau canlynol:

- Pobl hŷn
- Pobl â dementia sydd yn y camau cynnar
- Pobl â chyfrifoldebau gofalu
- Pobl â Syndrom Down
- Pobl â nam synhwyrdd
- Pobl o darddiad Affrio-Caribïaidd neu Asiaidd
- Pobl â chrefydd neu gred
- Menywod
- Pobl sy'n nodi eu bod yn drawsryweddol neu'n trawsnewid ar hyn o bryd
- Pobl nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf
- Pobl sy'n ceisio cyflawni / cynnal ffordd iach o fyw
- Pobl ar incwm isel fel gofalwyr cyflogedig
- Pobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol

- Pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig
- Pobl sy'n ystyried eu hunain yn lesbiaidd, yn hoyw neu'n ddeurywiol

Y pum maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i'w blaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 3.1 Datblygu llwybr gofal sy'n deg. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales actions 17, 18 and 38\].](#)
- 3.2 Cydnabod ac ymateb i anghenion trafnidiaeth gwahanol. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 9.\]](#)
- 3.3 Dylid casglu data am nodweddion gwarchoddedig a lleoliadau daearyddol (fel dirprwy ar gyfer grŵp cymdeithasol-economaidd) i asesu unrhyw annhegwch y mae angen ei unioni. Yna, bydd angen gweithredu ymyriadau penodol i geisio unioni unrhyw annhegwch. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 23.\]](#)
- 3.4 Cyfle i gael gwybodaeth yn y ddewis iaith.

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Dylid ymchwilio ymhellach i ymyriadau penodol ar sail tystiolaeth i geisio unioni anghydraddoldebau mewn gofal dementia

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau Cymru Gyfan ar gyfer Cyfathrebu a Gwybodaeth Hygyrch i Bobl â Nam ar eu Synhwyrau a luniwyd gan Lywodraeth Cymru [Cam 22].

AMCAN STRATEGOL 4 - CAIFF GWASANAETHAU EU CYDLYNU'N LLAWN

Er bod llawer o waith wedi'i wneud i wella'r broses o gydlynu gwasanaethau, mae angen mwy o welliant o hyd. Mae hwn yn faes pwysig i bobl â dementia sy'n gwerthfawrogi parhad a gofalwyr sy'n teimlo bod dyblygu yn y system.



Y tri maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i'w blaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 4.1 Dylid cydlynu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac iechyd yn llawn, gan ganolbwyntio ar ail-alluogi cadarnhaol. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 17.\]](#)
- 4.2 Dim ond unwaith y dylid rhoi'r holl wybodaeth i wasanaethau. Dylid rhannu'r wybodaeth hon (gyda chaniatâd) ar draws yr holl asiantaethau perthnasol. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 17.\]](#)
- 4.3 Dylai fod un pwynt mynediad ar gyfer gwasanaethau dementia yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 17.\]](#)

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Yn ogystal â chydlynu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn llawn, dylai gwasanaethau trydydd sector, tai a thrafnidiaeth ychwanegol fod yn ddi-dor
- Dylid cefnogi cynigion ymchwil. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 61\]](#)
- Mynediad i atebion cymorth pan fo angen, gan gynnwys ar gyfer diwedd oes. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 48\]](#)

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Adolygu gallu a rôl gweithwyr cymorth dementia er mwyn sicrhau bod gan bob unigolyn â dementia sy'n byw yn y

gymuned weithiwr cymorth penodol sy'n gweithio yn unol â safonau galwedigaethol y cytunwyd arnynt [Cam 25].

- Datblygu 'timau amlddisgyblaeth o amgylch yr unigolyn' sy'n cynnig gofal, cymorth a thriniaeth cydlynol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ôl yr angen [Cam 28].
- Gweithio gyda Gofal Cymdeithasol, gwasanaethau iechyd a darparwyr tai a chynnwys pobl â dementia, eu teuluoedd a'u gofalwyr i atgyfnerthu'r gwaith o gydweithredu mewn ffordd strategol mewn cysylltiad â thai i alluogi pobl i aros yn eu cartrefi [Cam 31].
- Sicrhau bod byrddau iechyd yn cynnig mynediad i ymyriadau ffarmacolegol a seicogymdeithasol ar sail tystiolaeth yn unol â Matrics Cymru a chanllawiau perthnasol eraill [Cam 36].
- Sicrhau bod y "timau o amgylch yr unigolyn" newydd yn galluogi teuluoedd a gofalwyr i gael gofal seibiant sy'n gallu diwallu anghenion y sawl sy'n byw gyda dementia [Cam 39].
- Sicrhau bod gwasanaethau cyswllt seiciatrig ar gael i bob ysbyty cyffredinol yng Nghymru [Cam 43].
- Sicrhau bod argymhellion Archwiliad Cenedlaethol Coleg Brenhinol y Seiciatryddion o ddementia mewn ysbytai cyffredinol yn cael eu gweithredu gan gynnwys cyfarwyddo byrddau iechyd ac ymddiriedolaethau i fabwysiadu egwyddorion 'Ymgyrch John' [Cam 44].
- Ehangu'r defnydd o'r dull Mapio Gofal Dementia fel dull sefydledig o gyflawni ac ymgorffori gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer pobl â dementia a sicrhau bod byrddau iechyd yn gweithredu 'Diagram Sbardunau – Amgylcheddau Cleifion Mewnol Iechyd Meddwl ar gyfer pobl â dementia' [Cam 45].
- Sicrhau bod gan unedau iechyd meddwl pobl hŷn lwybrau gofal cytunedig ar gyfer derbyn gofal iechyd corfforol rheolaidd [Cam 46].
- Sicrhau bod mynediad i wasanaethau eiriolaeth a chymorth ar gael i alluogi unigolion i ymgysylltu a chymryd rhan pan fydd awdurdodau lleol yn arfer eu dyletswyddau statudol dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 [Cam 47].

AMCAN STRATEGOL 5 - BYDD GWASANAETHAU'N CAEL EU DARPARU Â CHAREDIGRWYDD A THRUGAREDD.

Dylai pawb drin pob person sydd â dementia gyda charedigrwydd a thrugaredd. Yng nghyd-destun staff gofal cyflogedig, mae angen eu hyfforddi i lefel sy'n briodol i'w rôl.



Y tri maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i'w blaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 5.1 Dylid defnyddio dull o gyflwyno gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar unigolyn, a ddylai gael ei arwain gan anghenion ac nid gan y gwasanaeth. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 28.\]](#)
- 5.2 Sicrhau y dylai'r holl staff sy'n dod i gysylltiad â phobl â dementia gael hyfforddiant sy'n briodol i'w rôl, yn unol â fframwaith hyfforddi dementia Gwaith Da. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales actions 7, 15, 16, 32, 51, 52, 53, 54, 55 and 56\].](#)
- 5.3 Mae angen diwallu anghenion pobl â dementia ar ddiwedd oes trwy greu canllawiau diwedd oes. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 48.\]](#)

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Dylid cydnabod anghenion newidiol pobl â dementia a'u rheoli'n ofalus dros amser.

- Dylid cydnabod anghenion newidiol gofalwyr gan eu rheoli'n ofalus dros amser.
- Bydd gwirfoddolwyr a'r gweithlu yn helpu i chwalu rhwystrau diwylliannol i dderbyn gwasanaethau
- Bydd staff yn dangos caredigrwydd a thrugaredd ym mhob achos o ryngweithio
- Bydd gwerthuso gwasanaethau yn cynnwys lefelau caredigrwydd a thrugaredd staff

AMCAN STRATEGOL 6 - BYDD CYMORTH YN CANOLBWYNTIO AR OFAL SYLFAENOL

Mae angen i gymorth ganolbwyntio ar ofal sylfaenol. Bydd hyn yn gofyn am hyfforddiant, cymorth a datblygiad ychwanegol i sicrhau bod ymarferwyr gofal sylfaenol yn teimlo eu bod yn cael cymorth i ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol.



Y tri maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i'w blaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 6.1 Caiff rhagor o staff gofal sylfaenol eu hyfforddi i gael dealltwriaeth drylwyr o ddementia. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 13.\]](#)
- 6.2 Dylid gwneud mwy o ddefnydd o'r tîm gofal sylfaenol cyfan ym mhob practis gofal sylfaenol. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 13.\]](#)
- 6.3 Dylid defnyddio'r model rhagnodi cymdeithasol mewn gofal sylfaenol i bobl â dementia. Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y gymuned (er enghraifft, Gweithwyr Cyswllt Dementia, therapyddion galwedigaethol a'r trydydd sector) gydweithio i gefnogi pobl â dementia a'u gofalwyr.

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Dylai ymarferwyr gofal sylfaenol weithio gyda theuluoedd i helpu i wella ymwybyddiaeth ymhlith teuluoedd
- Dylai ymarferwyr gofal sylfaenol gymryd rhan a chael eu cynnwys yn y cynllun cymorth ar gyfer unigolion
- Dylai nifer y meddygon teulu sydd â diddordeb arbennig mewn dementia gynyddu i ddiwallu'r angen cynyddol yn y boblogaeth

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Annog meddygon teulu i ddarparu elfen dementia'r Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd Iechyd Meddwl a gyflwynwyd yn 2017 [Cam 11].
- Sicrhau bod practisau gofal sylfaenol yn gallu dangos tystiolaeth eu bod yn gefnogol i ddementia [Cam 13].
- Datblygu ymhellach y defnydd o'r gwasanaeth ychwanegol dan gyfarwyddyd newydd ar gyfer cartrefi gofal preswyl a nyrsio [Cam 41].

AMCAN STRATEGOL 7 - BYDD GOFALWYR YN DERBYN GOFAL

Cydnabyddir gwerth gofalu am ofalwyr pobl â dementia. Mae lles gofalwyr yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd bywyd pobl â dementia.



Y pum maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i'w blaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 7.1 Mae angen seibiant hygyrch a hyblyg. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 39.](#)]
- 7.2 Mae angen hyfforddiant i ofalwyr. Byddai hyn hefyd yn darparu cymorth gan gymheiriaid. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 52.](#)]
- 7.3 Mae angen adnodd penodol i ofalwyr. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 26.](#)]
- 7.4 Dylai gofalwyr allu cadw eu hymdeimlad eu hunain o hunaniaeth trwy weithgareddau a hobiau. [[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 27.](#)]

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:


- Mae angen cymorth emosiynol ar ofalwyr wrth symud trwy wahanol gamau dementia
- Dylai cyflogwyr gynnig polisïau gweithio hyblyg i gefnogi gofalwyr
- Mae angen ymchwilio i'r cyfnod o drawsnewid ar ôl gofal a sut y gall gofalwyr helpu gofalwyr eraill

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Sicrhau y bydd gofalwyr yn cael cynnig asesiad o'u hanghenion eu hunain ac, os ydynt yn gymwys, caiff cynllun cymorth ei ddatblygu gyda nhw i nodi cymorth priodol (yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).

AMCAN STRATEGOL 8 - BYDD ARGYFYNGAU'N CAEL EU HOSGOI

Mae angen i ni gael gwybodaeth am beth i'w wneud mewn argyfwng. Yn ogystal, mae amseroldeb gwasanaethau'n bwysig. Yn aml, dim ond pan fydd argyfwng y bydd gofalwyr yn gofyn am help, ac wedyn mae angen cymorth brys arnynt.



Y pum maes a nodwyd yn y Digwyddiad Datblygu Strategaeth Dementia i flaenoriaethu yn y tair blynedd gyntaf yw:

- 8.1 Darperir cymorth amserol i ofalwyr. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 27.\]](#)
- 8.2 Dylid nodi'n glir ym mhob cynllun gofal yr hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 38.\]](#)
- 8.3 Dylid datblygu gwasanaethau ymateb brys priodol ymhellach. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 38.\]](#)
- 8.4 Dylid cefnogi gofalwyr i ofalu am eu hiechyd eu hunain. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 27.\]](#)
- 8.5 Dylai fod un rhif penodol i'w ffonio mewn argyfwng. [\[Linked to Dementia Action Plan for Wales action 38.\]](#)

Ar gyfer y blynyddoedd i ddod, dylid mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- Dylid cynnal cronfa o'r holl wasanaethau sydd ar gael er mwyn helpu i atal argyfyngau; er enghraifft, trwy Dewis

- Gall mwy o hyfforddiant, cyngor, arweiniad a chymorth gan gymheiriaid helpu gofalwyr

Mae camau gweithredu ychwanegol o'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia yn cynnwys:

- Sicrhau bod argymhellion perthnasol a dderbynnir gan y Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol yn cael eu hystyried a'u hymgorffori yn y gwaith o ddatblygu polisi ar draws y Llywodraeth a'u hintegreiddio mewn arfer gweithredol.

CYFLAWNI

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd tuag at yr amcanion strategol a nodir yn y strategaeth hon, byddwn yn gwella ein prosesau monitro a gwerthuso. Byddwn yn gweithio i wella maint ac ansawdd y data a gesglir. Bydd hyn yn cynnwys gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar fonitro hygyrchedd gwasanaethau dementia a gwneud iawn am unrhyw anghydbwysedd mewn lefelau diagnosis mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae'r partneriaethau sy'n cynllunio gofal dementia ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg yn atebol yn y pen draw i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a bydd y grŵp hwn yn cymryd cyfrifoldeb am sicrhau bod cynllun gwerthuso cryf ar waith a'i fod yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Soniodd sawl cyfranogwr yn yr Aseiad o Anghenion Iechyd Dementia am yr angen i integreiddio camau gweithredu i gynlluniau presennol er mwyn cynorthwyo'r gwaith cyflawni, yn hytrach na chael fframwaith, strategaeth a chynllun ar wahân sydd y tu allan i'r dulliau cyflawni safonol. Er hynny, teimlai eraill ei bod yn bwysig llunio dogfen ar wahân a oedd yn egluro'r cyfeiriad a'r holl gamau cysylltiedig. Mae'r ddogfen hon yn gosod y cyfeiriad trwy'r weledigaeth gyffredinol ac yn disgrifio camau gweithredu am y tair blynedd gyntaf yn y cynllun gweithredu (Atodiad A). Fodd bynnag, bydd yn bwysig annog partneriaid i gynnwys eu gweithredoedd yn eu cynlluniau eu hunain, yn hytrach na nodi'r camau gweithredu a restrir yma 'yn ychwanegol' at y llwyth gwaith arferol.

Mae Cynllun Dementia 3 Blynedd Caerdydd a'r Fro wedi bod ar waith ers mis Ebrill 2014 a daeth i ben ym mis Mawrth 2017. Bu'n sbardun i gryn welliant dros y tair blynedd diwethaf. Ceir crynodeb o'r camau gweithredu a gwblhawyd trwy'r Cynllun Dementia 3 Blynedd presennol [ar-lein](#).

MONITRO CYNNYDD AR STRATEGAETH A CHYNLLUN GWEITHREDU DEMENTIA 2018-2028

Mae'r Tasglu Dementia presennol yn gweithredu fel grŵp llywio amlasiantaeth ac mae wedi goruchwylio'r gwaith o gyflawni Cynllun Dementia 3 Blynedd Caerdydd a Bro Morgannwg 2014-2017, a datblygu'r Strategaeth newydd hon ar gyfer 2018-2028. O fis Mai 2018 bydd y strwythur hwn yn newid, a bydd Grŵp Cyflawni ar gyfer Dementia yn rhoi ar waith y camau gweithredu a nodir yn y Strategaeth Dementia newydd a'r Cynllun Gweithredu ar gyfer Dementia cysylltiedig (gweler Atodiad A). **Sicrheir y caiff defnyddwyr gwasanaeth a gofawyr eu cynrychioli yn unol â cham gweithredu 8 Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Dementia. Yn unol â cham gweithredu 30, bydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a'r Fro yn blaenoriaethu ffyrdd o integreiddio gwasanaethau, gofal a chymorth i bobl â dementia trwy gynnal trosolwg o'r trefniadau comisiynu ar gyfer Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Cymru ar gyfer Dementia.**

ATODIAD A: MONITRO A GWERTHUSO

DANGOSYDDION LLEOL

Amcan Strategol	Dangosydd	Llinell sylfaen (Mawrth 2018)	Targed (Mawrth 2021)
1. Mae dementia yn fater i bawb	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu nifer y cyfeillion dementia Cynyddu nifer y cymunedau a'r sefydliadau sy'n gweithio tuag at ddeall dementia 	19,280 I'w gadarnhau	>25,000 o Gyfeillion Dementia wedi'u creu I'w gadarnhau
2. Bydd y risg o ddatblygu dementia'n cael ei leihau a rhoddir diagnosis mewn da bryd	<ul style="list-style-type: none"> Cynyddu canran y bobl sy'n adrodd am 'ymddygiadau ffordd iach o fyw da' Lleihau'r amser aros rhwng atgyfeiriad newydd ac apwyntiad newydd i'r tîm cof Lleihau'r aros am ddiagnosis rhagarweiniol 	I'w gadarnhau 12 wythnos I'w gadarnhau	Gwelliant parhaus < 28 diwrnod < 12 wythnos
3. Bydd cyfle cyfartal i	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

ddefnyddio gwasanaethau			
4. Bydd gwasanaethau'n cael eu cydlynu'n llawn	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
5. Bydd gwasanaethau'n cael eu darparu â charedigrwydd a thrugaredd	Cynyddu canran y bobl sy'n nodi bod y gofal a'r cymorth maen nhw'n eu derbyn yn rhagorol neu'n dda Canran staff rheng flaen y GIG sydd wedi'u hyfforddi mewn lefel briodol o ofal dementia fel yr amlinellir yn 'Gwaith Da'	I'w gadarnhau I'w gadarnhau	I'w gadarnhau >75%
6. Bydd cymorth yn canolbwyntio ar Ofal Sylfaenol	Cynyddu nifer y meddygon teulu sy'n dilyn hyfforddiant mewn adnabod yn gynnar, rheoli effeithiol, cyngor a chymorth i bobl â dementia a'u gofalu Cynyddu canran y bobl 65 oed a hŷn sydd â diagnosis o ddementia	I'w gadarnhau 63.4%	Gwelliant parhaus >72%

7. Gofelir dros ofalwyr	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau
8. Bydd argyfyngau yn cael eu hosgoi	Oedi cyn derbyn i'r cartref gofal a/neu'r ysbyty	I'w gadarnhau	I'w gadarnhau

ATODIAD B: COFNODION GWELEDOL O'R DIGWYDDIAD STRATEGAETH DEMENTIA

